# CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL COLEG DEWI SANT

2022-2026

Cynnwys.


**03 Rhagair**
**04 Y Coleg**

**05 Ein cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd**
Cenhadaeth Coleg Dewi Sant
Ein Gweledigaeth
Ein Gwerthoedd

**07 Y Gyfraith**
Y Gyfraith ac ein gofynion 2022-2026
Y Nod Cyffredinol
Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

**11 Heriau Allweddol y Coleg**
**12 Ymgynghoriad**
**13 Ffynonellau Gwybodaeth**
**14 Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol**

**15 Amcan Cydraddoldeb Strategol 1**
Cam gweithredu 1.1
Cam gweithredu 1.2
Cam gweithredu 1.3
Cam gweithredu 1.4
Cam gweithredu 1.5

**17 Amcan Cydraddoldeb Strategol 2**
Cam gweithredu 2.1
Cam gweithredu 2.2
Cam gweithredu 2.3
Cam gweithredu 2.4

**19 Amcan Cydraddoldeb Strategol 3**
Cam gweithredu 3.1
Cam gweithredu 3.2
Cam gweithredu 3.3
Cam gweithredu 3.4

**21 Amcan Cydraddoldeb Strategol 4**
Cam gweithredu 4.1
Cam gweithredu 4.2

**23 Amcan Cydraddoldeb Strategol 5**
Cam gweithredu 5.1
Cam gweithredu 5.2

**25 Trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth cydraddoldeb berthnasol**
**25 Trefniadau ar gyfer cyhoeddi Gwybodaeth Cydraddoldeb**
**26 Trefniadau ar gyfer monitro cynnydd ein hamcanion**
**26-27 Trefniadau ar gyfer asesu effaith tebygol, gwirioneddol a pharhaus ar grwpiau gwarchodedig**

# Rhagair.

Mae Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant yn falch o gyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn sy'n cwmpasu'r cyfnod 2022 i 2026, yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu ein hamcanion cydraddoldeb allweddol er mwyn sicrhau cydraddoldeb i bawb

# Y Coleg.

Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant yw'r unig Goleg Addysg Bellach Eglwysig dynodedig. Mae'n gweithredu o dan Weithred Ymddiriedolaeth y mae ei Erthyglau a'i Offerynnau yn deillio ohono. Ymddiriedolwr y Coleg yw'r Parchedicaf George Stack, Archesgob Caerdydd. Yr Archesgobaeth sy'n berchen ar y safle ac adeiladau'r coleg. Hyd at 1993, roedd yn goleg chweched dosbarth o fewn yr Awdurdod Addysg Lleol o ganlyniad i ail-drefnu addysg uwchradd Gatholig o fewn De Morgannwg.

Mae Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant wedi'i leoli yng ngogledd-ddwyrain Caerdydd. Yn ogystal â chyflwyno ar y prif gampws, mae'n cefnogi darpariaeth i ddysgwyr drwy fentrau ar y cyd rhwng Ffederasiwn Trelái yng ngorllewin y ddinas.

Mae'r coleg wedi ymrwymo'n llwyr i'r agenda cynhwysiant cymdeithasol ac ehangu cyfranogiad, ac mae 54% o'i ddysgwyr o bedwar degradd mwyaf difreintiedig Caerdydd. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad y Coleg i'r tlawd, sy'n rhan o ddysgeidiaeth gymdeithasol yr Eglwys.

Mae Coleg Dewi Sant yn ymdrechu i sefydlu a chynnal cymuned sy'n tystio i werthoedd a chred Gristnogol. Nod y Coleg yw gwireddu gweledigaeth o'r Efengyl trwy ei ofal bugeiliol, perthnasoedd rhyngbersonol cadarnhaol, cwricwlwm o ansawdd uchel a chyfleoedd ar gyfer twf crefyddol ac ysbrydol. Fel rhan o ymrwymiad y Coleg i addysg y person cyfan, mae holl fyfyrwyr y Coleg yn cymryd rhan yn y rhaglen Myfyrdod Ysbrydol sydd â'r nod o gynrychioli cyflwyniad cyffrous at y Ffydd Gatholig fel y mae ym myd heddiw. Mae'r rhaglen hon yn cyfuno'r ystafell ddosbarth gyda gwasanaeth, a theori gydag ymarfer, wrth gynnig opsiynau sy'n cyfrif am wahanol ddiddordebau a mannau cychwyn o ran cred.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo'n llawn i ddatblygiad y person cyfan, ac mae'r ymrwymiad hwn wedi'i adlewyrchu ym mhob dysgwr uwch, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi cofrestru ar y Rhaglen Anrhydeddau, sy'n ymgymryd â Bagloriaeth Cymru fel rhan o hawl craidd Coleg Dewi Sant. Roedd y Coleg ymhlith y colegau cyntaf yng Nghymru i beilota'r Lefel Uwch. Mae Bagloriaeth Cymru yn parhau i fod yn strategaeth allweddol i'r coleg o ran darparu ystod o sgiliau cyflogadwyedd a hanfodol i ddysgwyr sydd eu hangen ar yr economi ranbarthol ac i hyrwyddo llwyddiant dysgwr unigol yn y dyfodol mewn addysg, bywyd a gwaith. Mae cyfraddau cyrhaeddiad y Coleg ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn cymharu'n ffafriol iawn â chymaryddion cenedlaethol.

Mae gan y Coleg chwe ysgol bartner Gatholig 11-16; mae tair ohonynt yn Ninas a Sir Caerdydd, mae dwy ym Mro Morgannwg ac mae un ym Mwrdeistref Sirol Torfaen. Mae ganddo berthynas agos trwy bartneriaeth a chydweithio ag un ysgol uwchradd 11-18 yr Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd trwy'r Bartneriaeth Ffydd. Mae'r Coleg yn denu myfyrwyr o'r tri awdurdod unedol hyn a thu hwnt, ac mae myfyrwyr yn dod i Goleg Dewi Sant o dros 40 sefydliad.

Mae'r gyfradd cofrestriadau o grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu o 34% yn 2016/17 i 46% yn 2021/22. Mae Caerdydd yn gymdeithas ddiwylliannol amrywiol ac mae'r amrywiaeth hwn yn amlwg o fewn corff myfyrwyr y Coleg. Mae canran lleiafrifoedd ethnig y Coleg yn sylweddol uwch na ffigur Genedlaethol Cymru ac yn uwch na'r ffigur statudol

**Mae sicrhau cydraddoldeb i bawb yn ganolog i genhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd y Coleg.**

# Cenhadaeth Coleg Dewi Sant.

Coleg Catholig i'r gymuned, sy'n ceisio darganfod a gwireddu potensial llawn pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch a ysbrydolwyd gan Grist.

# Ein Gweledigaeth.

Ceisiwn y Ffordd, yr un Gwir, a'r Bywyd: Ffurfiant holl aelodau ein cymuned yng Nghrist.

# Ein Gwerthoedd.

Mae ein gwerthoedd wedi'u seilio ar yr Efengyl, ac mae ein cenhadaeth wedi'i 'hysbrydoli gan Grist' ac mae popeth rydym ni'n ei wneud wedi'i lywio a'i arwain gan weledigaeth sy'n seiliedig ar Grist. Mae'r gwerthoedd rydym ni'n eu rhannu'n cael eu mynegi yng ngeiriau Crist yn y Gwynfydau Matthew 5:

- "Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd" Gwerthoedd: Ffyddlondeb ac Uniondeb
- "Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu cysuro." Gwerthoedd: Urddas a Thosturi
- "Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear." Gwerthoedd: Gostyngeiddrwydd ac Addfwynder
- "Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon." Gwerthoedd: Gwirionedd a Chyfiawnder
- "Gwyn eu byd y rhai trugarog, oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd." Gwerthoedd: Maddeuant a Thrugaredd
- "Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld Duw." Gwerthoedd: Purdeb a Sancteiddrwydd
- "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw." Gwerthoedd: Goddefgarwch a Heddwch
- "Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd." Mae'r geiriau hyn yn erfyn arnom i fod yn gymuned llawn ffydd wedi'i hysbrydoli gan Grist ym mhopeth a wnawn. Mae hyn yn pennu'r hyn rydym ni am ei fod.

**Rydym ni am fod yn Goleg:**

- sy'n cynnig amgylchedd lle caiff dysgwyr eu grymuso i feithrin a dyfnhau eu perthynas â Duw;
- sy'n meithrin diwylliant academaidd â'r nod o ganlyn y gwirionedd;
- sy'n hyrwyddo twf rhinwedd mewn ffordd ragweithiol;
- lle caiff pobl eu credu a gofalir amdanynt;
- lle caiff yr holl ddoniau a galluoedd eu cydnabod a'u dathlu;
- lle caiff cyfraniadau a chyflawniadau unigolion eu gwerthfawrogi;
- lle caiff pawb ei drin yn deg ac yn gyfiawn;
- lle mae aberthu ar ran pobl sy'n economaidd dlawd, y rhai dan anfantais yn gymdeithasol, a'r rhai sydd dan anfantais yn addysgol yn gyffredin;
- lle mae anogaeth a chefnogaeth ar gael yn eang i sicrhau bod pawb yn cyflawni eu potensial personol llawn am ragoriaeth; a
- lle rydym ni'n helpu ein gilydd ac yn gweithio ar y cyd gyda brwdfrydedd a charedigrwydd, gan geisio fod yn fodel i'r syniadau sydd gennym.

# Y Gyfraith.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb sector gyhoeddus i:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, ac erledigaeth
- Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac eraill
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt

Mae'r ddyletswydd gyffredinol hon yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- oedran
- anabledd
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol
- ailbennu rhyw
- beichiogrwydd a mamolaeth
- priodas a phartneriaeth sifil

# Y Gyfraith ac ein gofynion.

Mae'r Ddeddf yn egluro bod rhoi sylw dyledus i wella cydraddoldeb yn cynnwys y canlynol:

- Dileu neu leihau'r anfanteision a wynebir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill
- Annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel

Mae'r Ddeddf yn disgrifio meithrin perthnasoedd da fel mynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt. Gall cyflawni'r ddyletswydd olygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill, cyn belled nad yw hyn yn mynd yn groes i ddarpariaethau eraill o fewn y Ddeddf.

Felly nid yw 'cydraddoldeb' yn golygu trin pawb yr un fath, mae'n golygu deall a mynd i'r afael â'r gwahanol rwystrau i gyfle cyfartal y mae gwahanol bobl yn eu hwynebu fel bod gan bawb cyfle teg i gyflawni eu potensial.

# Y Nod Cyffredinol.

Nod cyffredinol y ddyletswydd cydraddoldeb yw sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio i waith y coleg, ac y dylai hyn yn ei dro arwain at wasanaethau a chanlyniadau a ddarperir yn fwy priodol, gan ystyried cefndiroedd unigolion.

Mae'r ddyletswydd yn adeiladu ar y dyletswyddau blaenorol o ran rhywedd, hil, ac anabledd. Mae'n cynrychioli newid sylweddol mewn ymagwedd o fframwaith cyfreithiol, a oedd yn dibynnu ar bobl yn cwyno am wahaniaethu, i gyd-destun lle mae'r sector cyhoeddus yn dod yn asiant newid rhagweithiol.

Mae'r Llywodraeth a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) wedi ei gwneud yn glir bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys colegau addysg bellach, brif ffrydio cydraddoldeb yn eu swyddogaethau mewnol ac allanol, ac mae'r ddyletswydd yn darparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â gwahaniaethu sefydliadol mewn polisïau, arferion, a gweithdrefnau.

Mae Coleg Dewi Sant wedi ymrwymo i'r egwyddorion hyn o brif ffrydio cydraddoldeb ac yn croesawu'r newidiadau deddfwriaethol hyn. Rydym yn deall bod prif ffrydio materion cydraddoldeb yn golygu ystyried cydraddoldeb mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd drwy gydol swyddogaethau'r Coleg a gwreiddio'r rhain yn ein polisïau, cyfarfodydd, a phrosesau.

# Dyletswyddau Penodol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu set o ddyletswyddau penodol sy'n manylu ar y camau y mae'n rhaid i gorff rhestredig eu cymryd i ddangos ei fod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau penodol wedi'u cynllunio i sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu cynnwys wrth gynllunio polisïau ac o fewn darparu gwasanaethau. Y dyletswyddau penodol yw:

- Cyhoeddi amcanion cydraddoldeb i'w hadolygu bob 4 blynedd
- Cyhoeddi datganiad sy'n nodi'r camau y mae wedi'u cymryd neu y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni pob amcan a'r amserlen i wneud hynny
- Monitro cynnydd ac effeithiolrwydd y camau a gymerwyd
- Nodi, ceisio, a lle bo'n briodol, cyhoeddi gwybodaeth y gellir ei defnyddio i fesur a yw'r ddyletswydd gyffredinol yn cael ei chyflawni
- Cynnal a chyhoeddi asesiadau effaith sy'n dangos sut mae ei bolisïau cyfredol ac arfaethedig yn effeithio ar allu'r sefydliad i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol
- Yn flynyddol, casglu a chyhoeddi data cyflogeion penodol trwy gyfeirio at nodweddion gwarchodedig.

# Heriau Allweddol y Coleg.

Mae'r coleg wedi nodi pum her allweddol y mae'n bwriadu canolbwyntio arnynt dros y pedair blynedd nesaf.

**1. Data Monitro Cydraddoldeb**

Mae lefelau cyfranogiad ymhlith staff o ran darparu cofnod cyflawn a chyfredol o'u data cydraddoldeb yn is na'r hyn a ddymunir, yn enwedig yn yr adrannau canlynol: Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol a Chred Grefyddol.

**2. Recriwtio Amrywiol**

Diversity in the workplace brings different perspectives and approaches, and creates real impact and benefits. Research shows that organisations with greater workplace diversity achieve key tangible outputs including the outperforming of competitors, higher innovation, higher employee engagement, and improved learner outcomes. Inclusive recruiting is an attempt to understand how current recruitment and unconscious bias may exist and ways to address this. The College is committed to more closely aligning its staff profile with that of the students and the geographical area.

**3. Amrywiaeth mewn rolau Arwain a dilyniant**

The representation of those with protected characteristics on the Senior Leadership Team or the Governing Body is minimal. In particular, there is no Black representation on the Board. The College is committed to more closely aligning its Senior Leaders and Governor profile with that of the students and the geographical area.

**4. Sicrhau bod pob myfyriwr, o bob cefndir, yn llwyddo yn ei astudiaethau**

Ni ddylai myfyrwyr brofi unrhyw anfantais mewn cyrhaeddiad oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.

**5. 5. Sicrhau y gall pob myfyriwr, o bob cefndir, symud ymlaen i gyflogaeth neu astudiaeth bellach.**

Eto, ni ddylai myfyrwyr brofi unrhyw anfantais o ran cyrchfan arfaethedig oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.

# Ymgynghoriad.

Wrth baratoi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn, ymgymerwyd ag ymgynghoriad ar Gydraddoldeb gyda'r canlynol:

1. Aelodau Staff y Coleg (drwy Holiadur Cydraddoldeb)
2. Dysgwyr y Coleg (drwy grŵp ffocws)
3. Cynrychiolydd Undeb (drwy gyfarfodydd)
4. Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (drwy gyfarfodydd)

# Ffynonellau Gwybodaeth.

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Sector Addysg Bellach yng Nghymru 2019. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- A yw Cymru'n Decach? 2018. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Data perfformiad wedi'i ddilysu
- Llais Dysgwyr a Staff

# Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol.

Mae Coleg Dewi Sant wedi nodi pum amcan strategol ‘craidd’ y bydd yn canolbwyntio arnynt dros y pedair blynedd nesaf:

### 1. Recriwtio a Dilyniant

Gwella ein lefelau recriwtio a chyfleoedd dyrchafiad i staff sydd wedi’u tangynrychioli.

### 2. Casglu, monitro ac adrodd data

Gwella ein casglu a monitro ac adrodd data fel y gallwn wneud ymyriadau sy’n seiliedig ar dystiolaeth mewn meysydd megis cyrhaeddiad, cyflog a dilyniant.

### 3. Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

Parhau i godi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith staff a dysgwyr gyda chymorth darparwyr allanol sy’n darparu safbwyntiau arbenigol ar ystod o faterion cydraddoldeb.

### 5. Dadansoddiad cyrchfannau

Cynnal dadansoddiad trylwyr bob blwyddyn o ddata cyrchfannau fesul is-grŵp, gan gynnwys cyfradd derbyn i Addysg Uwch a llwybrau dilyniant, a chynhyrchu ffocysau thematig blynyddol, er enghraifft, rhywedd a chyrsiau STEM, statws economaidd-gymdeithasol a llwybrau dilyniant ac ethnigrwydd mewn perthynas â cheisiadau a throsiadau Rhydychen a Chaergrawnt.

### 4. Dadansoddiad canlyniadau

Cynnal dadansoddiad trylwyr yn flynyddol o raddau targed a graddau gwirioneddol unigol, a dadansoddiad o gyrhaeddiad is-grwpiau yn erbyn y cyfanred ar bob ffin gradd.

# Amcan Cydraddoldeb Strategol 1.

Gwella ein lefelau recriwtio a chyfleoedd dyrchafiad i staff sydd wedi'u tangynrychioli

**Beth fydd y budd i'r Coleg?**

Gwell Perfformiad Myfyrwyr: Dengys astudiaethau bod meithrin amrywiaeth yn yr ystafell ddosbarth yn cael effaith sylweddol ar berfformiad myfyrwyr. Yn ôl ymchwil gan Y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (IES), roedd gan ddysgwyr hyder, hunan-barch, a dyheadau uwch o ganlyniad i ymyriadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Ymgysylltiad Staff: Yn ôl ACAS, gall gweithle sy'n annog cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant helpu sefydliad trwy:

- gadw cyflogeion yn hapus a brwdfrydig
- atal materion difrifol neu gyfreithiol rhag codi, megis bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu
- gwella syniadau a datrys problemau
- denu a chadw staff medrus

# Bydd y Coleg yn mynd i'r afael ag Amcan Cydraddoldeb Strategol 1 drwy'r camau gweithredu canlynol:

**Cam gweithredu 1.1**

Datblygu presenoldeb cydraddoldeb llawer gwell ar y wefan gyda thudalen bwrpasol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

**Cam gweithredu 1.2**

Gweithio gyda'r adran Swyddi Gwell Dyfodol Gwell mewn perthynas â hyrwyddo a hysbysebu swyddi gwag yn y coleg.

**Cam gweithredu 1.3**

Gweithio gyda sefydliadau penodol i'n helpu i gyflawni'n hamcan. E.e. Hyderus o ran Anabledd, Cydraddoldeb Hil Cymru, Grŵp Arweinyddiaeth AB Du, a'n grwpiau cymunedol lleol.

**Cam gweithredu 1.4**

Hysbysebu logo 'Working Forward' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ein tudalen recriwtio.

**Cam gweithredu 1.5**

Cydweithredu gyda'r Grŵp Arweinyddiaeth AB Du drwy eu cynllun 10 pwynt i fynd i'r afael â hiliaeth systemig mewn colegau.

# Amcan Cydraddoldeb Strategol 2.

Gwella ein casglu a monitro data ar gyfer staff a myfyrwyr

**Beth fydd y budd i'r Coleg?**

Gyda data mwy cywir ar ddemograffeg ein staff a'n dysgwyr, gallwn ddarparu ymyriadau sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth o ran cymorth, polisïau, ac asesiadau effaith i sicrhau tegwch a chydraddoldeb i'r rhai â nodweddion gwarchodedig.

# Bydd y Coleg yn mynd i'r afael ag Amcan Cydraddoldeb Strategol 2 drwy'r camau gweithredu canlynol:

**Cam gweithredu 2.1**

Rhoi gwybod i staff a myfyrwyr yn rheolaidd pam rydym yn casglu'r data ac at beth yr ydym yn ei ddefnyddio.

**Cam gweithredu 2.2**

Cynnwys y datganiad hwn ar ein hysbysebion swyddi/ Porth Staff/tudalen we bwrpasol.

**Cam gweithredu 2.3**

Cyhoeddi adroddiadau bob tymor i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Corff Llywodraethu i adolygu demograffeg staff a myfyrwyr.

**Cam gweithredu 2.4**

Archwilio gwahanol ddulliau o gasglu i geisio gwella cyfraddau ymateb.

# Amcan Cydraddoldeb Strategol 3.

Parhau i godi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith staff a dysgwyr gyda chymorth darparwyr allanol sy'n darparu safbwyntiau arbenigol ar ystod o faterion cydraddoldeb.

**Beth fydd y budd i'r Coleg?**

Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o werth gweithlu a phoblogaeth myfyrwyr cynhwysol

Diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth a chleientiaid amrywiol yn well

Gwell gwybodaeth ac ymgysylltiad ag arferion amrywiaeth a chynhwysiant da yn y Coleg

Sicrhau bod staff yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol

# Bydd y Coleg yn mynd i'r afael ag Amcan Cydraddoldeb Strategol 3 drwy'r camau gweithredu canlynol:

## Cam gweithredu 3.1

Parhau i ddarparu Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth rheolaidd i staff a myfyrwyr.

## Cam gweithredu 3.2

Archwilio ffyrdd i wella, gwerthuso ac ymestyn yr hyfforddiant hwn.

## Cam gweithredu 3.3

Ymgorffori Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel eitem sefydlog ar gyfer y grwpiau presennol canlynol:

Pwyllgor Ffurfiant a Lles Staff

Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

Pwyllgor Profiad Myfyrwyr

Cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth

## Cam gweithredu 3.4

Cynyddu presenoldeb amrywiaeth a chydraddoldeb ar y wefan, byrddau recriwtio ac ar y cyfryngau cymdeithasol

# Amcan Cydraddoldeb Strategol 4.

Cynnal dadansoddiad trylwyr yn flynyddol o raddau targed a graddau gwirioneddol unigol, a dadansoddiad o gyrhaeddiad is-grwpiau yn erbyn y cyfanred ar bob ffin gradd.

**Beth fydd y budd i'r Coleg?**

Bydd yn nodi lle gallai fod angen ymyriadau gwella ansawdd penodol i wella canlyniadau is-grŵp.

# Bydd y Coleg yn mynd i'r afael ag Amcan Cydraddoldeb Strategol 4 drwy'r camau gweithredu canlynol:

## Cam gweithredu 4.1

Once the data has been thoroughly scrutinised, to target these specific subgroups with interventions.

## Cam gweithredu 4.2

Evaluating the impact of the interventions in order to ensure that all students, from all backgrounds succeed in their studies.

# Amcan Cydraddoldeb Strategol 5.

Cynnal dadansoddiad trylwyr bob blwyddyn o ddata cyrchfannau fesul is-grŵp, gan gynnwys cyfradd derbyn i Addysg Uwch a llwybrau dilyniant, a chynhyrchu ffocysau thematig blynyddol, er enghraifft, rhywedd a chyrsiau STEM, statws economaidd-gymdeithasol a llwybrau dilyniant ac ethnigrwydd mewn perthynas â cheisiadau a throsiadau Rhydychen a Chaergrawnt.

**Beth fydd y budd i'r Coleg?**

Amlygu lle gallai fod angen ymyriadau penodol i wella cydraddoldeb cyrchfannau

# Bydd y Coleg yn mynd i'r afael ag Amcan Cydraddoldeb Strategol 5 drwy'r camau gweithredu canlynol:

## Cam gweithredu 5.1

Unwaith y bydd y data wedi'i graffu'n llawn, targedu'r isgrwpiau penodol hyn gydag ymyriadau.

## Cam gweithredu 5.2

Gwerthuso'r effaith i sicrhau bod pob myfyriwr, o bob cefndir, yn gallu symud ymlaen i gyflogaeth neu astudiaeth bellach.

# Trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth cydraddoldeb berthnasol.

Mae ein hadran Adnoddau Dynol yn gyfrifol am:

- gasglu holl ddata staff mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig
- casglu holl ddata ymgeiswyr allanol mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig

Mae ein Gwasanaethau Gwybodaeth Rheoli yn gyfrifol am:

- Ddata proffil myfyrwyr presennol
- Data ymgeiswyr

Mae ein Gwasanaethau Gwybodaeth Rheoli ac Adran Ansawdd yn gyfrifol am:

- Ddata canlyniadau gan gynnwys cyrchfannau, cyrhaeddiad a chadw

# Trefniadau ar gyfer cyhoeddi Gwybodaeth Cydraddoldeb.

Mae Coleg Dewi Sant yn cyhoeddi adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n cael ei gyhoeddi'n flynyddol. Mae hefyd yn adrodd ar gynnydd mewn perthynas â'n Hamcanion Cydraddoldeb

Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd Llywodraethu Llawn yn adolygu ac yn cymeradwyo'r adroddiad

Caiff y wybodaeth ei chyhoeddi ym mis Ebrill pob blwyddyn, a'i huwchlwytho ar ein mewnrwyd staff i sicrhau bod gan staff a dysgwyr fynediad hawdd at y wybodaeth.

# Trefniadau ar gyfer monitro cynnydd ein hamcanion.

Bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn adolygu'r cynnydd tuag at amcanion pob tymor. Bydd y Corff Llywodraethu Llawn yn derbyn yr adroddiad yn flynyddol

Bydd cynnydd yn cael ei ddogfennu a'i gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg sydd wedyn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Coleg erbyn mis Ebrill pob blwyddyn.

# Trefniadau ar gyfer asesu effaith tebygol, gwirioneddol a pharhaus ar grwpiau gwarchodedig.

Mae Coleg Catholig Dewi Sant wedi ymrwymo i fesur effaith polisïau, arferion, gweithdrefnau a phrosiectau newydd a phresennol ar bob grŵp cydraddoldeb drwy gynnal asesiadau effaith priodol.

Wrth gynnal asesiadau effaith, bydd y Coleg yn:

- sefydlu meini prawf clir ar gyfer mesur perthnasedd polisi, arfer, gweithdrefn a phrosiectau i gyfle cyfartal i bob grŵp.
- blaenoriaethu a phennu amserlen i asesu'r holl bolisïau, arferion a gweithdrefnau presennol ac yn y dyfodol yr ystyrir eu bod yn effeithio ar bob grŵp.
- casglu a dadansoddi data perthnasol i gynorthwyo gydag asesiadau effaith.

- ymgysylltu'n briodol trwy gynnwys ac ymgynghori â phobl y mae'r polisïau a'r rhaglenni'n debygol o effeithio arnynt o ddechrau'r prosesau datblygu a chynllunio.
- adolygu a diwygio cynigion yng ngoleuni casglu data, ymgynghori a chynnwys pobl i sicrhau bod unrhyw effaith negyddol yn cael ei lliniaru.
- parhau i ddarparu hyfforddiant a chymorth i staff i sicrhau eu bod yn cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn hyderus ac yn wybodus.
- anelu at ddarparu canlyniad cadarnhaol ar gyfer pob grŵp cydraddoldeb yn ein gwaith.
- er mwyn asesu effaith polisïau a rhaglenni'r Coleg ar yr holl nodweddion gwarchodedig, bydd y wybodaeth ganlynol yn cael ei dadansoddi:

i) data demograffig ac ystadegau eraill
ii) canfyddiadau ymchwil presennol
iii) data meincnodi
iv) data arolwg
v) data monitro cydraddoldeb
vi) ymarferion casglu data untro

St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College